

## Addurno Coeden Nadolig

A allwch chi ddarparu cyfleoedd i'r plant greu Coeden Nadolig fawr yn yr awyr agored?

Mae cymaint o bosibiliadau ar gyfer datblygu amrywiol sgiliau yn deillio o'r profiad syml hwn.

Gellir defnyddio'r ystod o adnoddau sydd gennych o fewn eich darpariaeth ardal tu allan o ran adnoddau naturiol a darnau rhydd. Rydym wedi trafod pwysigrwydd cael yr adnoddau hyn ar gael yn eich ardal awyr agored mewn gweithdai blaenorol. Gellir cyfoethogi'r ddarpariaeth gydag adnoddau'r Nadolig hefyd.

Fe welwch ein bod wedi creu'r goeden hon fel darn o gelf naturiol mawr ar y llawr ond gallwch chi a'r plant ddefnyddio'ch dychymyg a chreu rhywbeth unigryw eich hunain.

Man cychwyn y dasg yw ystyried y broses o adeiladu'r goeden.

Pa mor dal yw'r goeden? Pa mor llydan yw hi?

O beth mae'r goeden wedi'i chreu? Allan o ffyn? Gyda sialc ar y llawr ac ati?

Sut y byddwch chi'n mesur y goeden? (Mesurau safonol yntau ansafonol?) Pa offer wnewch chi ei ddefnyddio i fesur y goeden?

Fydd y goeden yn gymesur?

Bydd gwaith adeiladu'r goeden yn amrywio yn dibynnu ar oedran a datblygiad eich plant, addaswch y dasg a gwnewch y goeden mor heriol â phosibl. Po fwyaf yr ydych yn herio'r plant i greu, fel gydag unrhyw beth arall, y mwyaf fydd brwdfrydedd a chyfraniad y plant i'r gweithgaredd.

Roedd ein coeden ni'n gymesur gyda'r llinell gymesuredd lawr y canol. Y sgil oedd creu coeden oedd yn gymesur, ac yna ei haddurno yn gymesur hefyd.

Po fwyaf o amrywiaeth o adnoddau a ddarperir, y mwyaf yw'r cyfleoedd ar gyfer creu ac archwilio cymesuredd.

Gellid datblygu'r gweithgareddau hefyd ochr yn ochr â sawl sgil arall

- Amser (faint o amser fyddwch chi'n gymryd i adeiladu ac addurno'r goeden)
- Arian (rhoi swm penodol o arian ee £1 i bob plentyn i brynu addurniadau sydd wedi'u prasio'n wahanol)
- Heriau uchder a lled i wneud coed o wahanol feintiau gan ddefnyddio mesuriadau safonol ac ansafonol.
- Gellir trafod siapiau 2D i 3D i helpu plant i wneud y naid gysyniadol o adeiladwaith 2D i 3D. A all y plant ail-greu eu creadigaeth neu gymesuredd 2D mewn 3D ar goeden neu lwyn bach.
- Gemau a chyfrif gyda dis. Adio neu lluosio'r rhifau ar y dis. Rhoi'r nifer cywir o addurniadau ar y goeden.
- Fe wnaethon ni hyd yn oed gynnwys mesur cynhwysedd a hylif ar y diwedd! Pan oedd y goeden yn gymesur gallai'r plant roi swm penodol o fililitrau o ddŵr i oleuo'r goleuadau, sef y seren ar dop y goeden. ('Light up multi colour reusable water sensor lights' oedd y goleuadau a ddefnyddiwyd).
- Gellir gwneud y tasgau cymesuredd yn fwy heriol drwy edrych ar sut y gallwch ail-greu croesliniau o dinsel neu ruban i addurno ochr arall y goeden.
- Gall y plant greu un hanner o'r goeden a phlant eraill gwblhau'r hanner arall i'w wneud yn gymesur.